Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref:

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

17 Ionawr 2018

Annwyl John

Yn ystod fy sesiwn dystiolaeth mewn perthynas â chraffu ar Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) y Pwyllgor Cyllid ar 11 Ionawr 2018, ymrwymais i ysgrifennu atoch ynghylch dau fater. Roedd y cyntaf ynghylch a yw adrannau 40 a 41 o'r Bil yn darparu digon o amddiffyniad i'r fframwaith statudol sy'n sail i *Gweithio i Wella* a chwynion gofal cymdeithasol. Roedd yr ail yn ymwneud â materion technegol yn adran 8 o'r Bil (cwynion ar lafar).

Adrannau 40 a 41

Mae Adran 40 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fonitro'r ffordd y mae awdurdodau rhestredig yn ymdrin â chwynion.

'Gweithio i Wella' yw'r weithdrefn gwyno ar draws GIG Cymru, ac fe'i gwnaed dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011; sydd yn eu tro wedi'u gwneud dan adran 133 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 ("Deddf 2003"). Gwnaed gweithdrefn gwyno statudol ar gyfer gofal cymdeithasol hefyd dan Reoliadau Gweithdrefn Gŵynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014; sydd yn eu tro wedi'u gwneud dan adran 114 o Ddeddf 2003 (wedi'i diddymu mewn perthynas â Chymru, ond mae'r Rheoliadau a wnaed oddi tani yn parhau i fod yn berthnasol i Gymru drwy rinwedd adran 17(2)(b) o Ddeddf Ddehongli 1978).

Mae'r gweithdrefnau hynny'n gosod paramedrau ynghylch sut y dylid ymdrin â chwynion yn y sectorau hynny, a'r iawn y dylid ei ddyfarnu ac ati. Mae'r Ddeddfwrfa (Senedd y Deyrnas

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Unedig yn wreiddiol, ond bellach Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan fod y materion hyn wedi'u datganoli) wedi ymddiried y cyfrifoldeb dros osod y paramedrau hynny i Weinidogion Cymru; ond y cyrff iechyd a'r awdurdodau lleol eu hunain ddylai sefydlu gweithdrefnau cwyno. Yn y sector gofal cymdeithasol, gall pob awdurdod lleol wneud cynllun ei hun, ond rhaid iddo gydymffurfio â'r Rheoliadau.

Mae'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn gosod y cyfrifoldeb ar yr awdurdod rhestredig i sicrhau nad yw'n gweithredu'n anghydnaws ag unrhyw ddeddfiad arall (gweler adran 41). Yn ein barn ni, byddai'n fwy priodol i'r cyfrifoldeb fod ar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) i sicrhau nad yw'r canllawiau sy'n cael eu rhoi gan y Swyddfa honno'n gwrthdaro â'r ddeddfwriaeth sy'n gosod paramedrau cynlluniau statudol, na'r cynlluniau statudol sy'n cael eu gwneud oddi tanynt.

Adran 8

Mae rhai materion technegol yn codi gyda drafftio adran 8(5).

Mae is-adran (5) yn gwahardd yr Ombwdsmon rhag defnyddio'r pwerau dan adran 3 i ymchwilio i gŵyn ar lafar sy'n bodloni gofyniad is-adran (1), hynny yw cwyn "a wnaed yn briodol", os nad yw'r achwynydd yn dymuno iddo wneud hynny. Nid oes unrhyw beth i'w weld yn gwahardd yr Ombwdsmon rhag defnyddio pwerau dan adran 4 i ymchwilio i'r gŵyn, fodd bynnag, ac ymddengys bod hyn yn golygu bod y gwaharddiad yn ddiwerth.

Dyma un o nifer o bryderon y mae swyddogion y Llywodraeth wedi'u nodi, a fydd o bosib angen nifer o welliannau yn ystod cyfnodau 2 a 3. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos â'u cydweithwyr yn y Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau bod y pryderon hynny'n cael sylw priodol.

Yn gywir

Mark.

Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance